

## **CYNGHORYDD TREF a feiciodd i Baris i godi arian i elusen fydd maer nesaf y Rhyl.**

Bydd y Cynghorydd Alan James, a feiciodd i brifddinas Ffrainc o Lundain i godi arian i Gymorth Canser Macmillan, yn buddsoddi ei egni i helpu'r dref dros y 12 mis nesaf.

Bydd Macmillan hefyd yn un o'r ddwy elusen i'w dewis gan y maer nesaf, a'r llall fydd Canolfan y Foryd, y Rhyl ar Ffordd Wellington.

Dywedodd y Cynghorydd James – cynghorydd tref ers 2012 ac aelod o Gyngor Sir Ddinbych ers 2016 – mai ffocws ei flwyddyn fydd cynhwysiant a chymuned.

Gweithiwr cymdeithasol wedi ymddeol, a arbenigodd mewn plant ac iechyd meddwl, dywedodd y Cynghorydd James, sy'n cynrychioli ward Foryd ar y cyngor tref, Gorllewin y Rhyl ar y cyngor sir ac sydd wedi byw yn y Rhyl ers 1984: "Yn y pum mlynedd ers pan fum yn gynghorydd, rwyf wedi gweld, ac wedi cymryd rhan, yn y newidiadau sy'n digwydd yn y Rhyl. Mae adfywio yn digwydd o'n cwmpas – mewn ychydig o fisoedd bydd Cei Marina yn agor, ac mae ein theatr yn cael ei hailwampio, ynghyd â newidiadau eraill ar lan y môr a chynlluniau'n cael eu cyflwyno ar gyfer parc dŵr cyffrous newydd.

"Dros y 12 mis nesaf, byddaf yn ceisio codi proffil y Rhyl ymhellach, gan weithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod yr adfywio yn parhau, ac yn cysylltu gyda chymunedau a phobl y Rhyl i ddiwallu eu hanghenion a'u diddordebau."

Un o'r grwpiau sy'n cael ei hyrwyddo gan y Cynghorydd James yn ystod ei flwyddyn fel maer yn Canolfan y Foryd.

"Mae Canolfan y Foryd yn fy ward ac yn rhaff bywyd i lawer. Mae'n lle y gall pobl ymweld ag o i gael cyngor ar dai a chwilio am waith, a dysgu sgiliau newydd. Mae'n ased gwerthfawr i'r dref ac rwy'n falch y bydd yn cael ei gefnogi ymhellach yn ystod fy nhyfnod fel maer," ychwanegodd.

Yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'r rheilffyrdd, mae'r Cynghorydd James a'i wraig Win, sydd hefyd yn gynghorydd tref yn y Rhyl ac a fydd yn faeres, yn rhedeg *Rails in Wales*, arddangosfa reilffordd a modelau flynyddol yn y dref. Mae'r Cynghorydd James, sy'n redwr marathonau, hefyd yn aelod o bwyllgor Rhyl yn ei Blodau, yn aelod o Reilffordd Fach y Rhyl, ac yn gwirfoddoli yn nigwyddiadau'r dref, gan gynnwys y sioe awyr a'r Ras dros Fywyd.

Dirprwy faer y Rhyl ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd y Cynghorydd Peter Prendergast a chaplan y maer fydd y Parchedig Andy Grimwood.

Diwedd



